# Adroddiad gwerthuso Gwirfoddolwyr Iechyd Meddwl gyda Gwirfoddoli i Yrfa (VtC)

## Cyflwyniad

Mae gwirfoddolwyr yn gwneud cyfraniad unigryw at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig pan fyddant yn dod â phrofiad bywyd a'r gallu i gysylltu â phobl ar lefel bersonol.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (ABUHB), mae gwirfoddolwyr sydd â phrofiad byw o heriau iechyd meddwl yn cefnogi cleifion ar draws lleoliadau cymunedol ac ysbytai, gan ddarparu anogaeth, gweithgareddau ystyrlon a'r sicrwydd bod adferiad yn bosibl.

Gan weithio mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, cefnogodd Helplu werthuso'r rhaglen wirfoddoli arloesol hon drwy ei wasanaeth Mewnwelediad ac Effaith.

Dangosodd y canfyddiadau ganlyniadau cadarnhaol i gleifion, staff a gwirfoddolwyr, gan gynnwys gwell profiadau cleifion, manteision i fywydau gwaith staff, a chyfleoedd i wirfoddolwyr fagu hyder, sgiliau ac ymdeimlad o bwrpas. Mae'r gwerthusiad hefyd yn tynnu sylw at werth profiad byw, empathi a chysylltiad dynol wrth gefnogi lles ac adferiad.

Mae'r prosiect hefyd yn gysylltiedig â llwybr Gwirfoddoli i Yrfa (VtC) Helplu, sy'n cefnogi gwirfoddolwyr sydd â diddordeb mewn archwilio gyrfaoedd iechyd a gofal. Trwy gyfuno gwirfoddoli â datblygiad gyrfa strwythuredig, mae'r rhaglen yn helpu pobl i ennill profiad, datblygu hyder a sgiliau, ac ystyried dilyniant i gyflogaeth yn y sector.

Mae'r astudiaethau achos hyn yn dangos gwerth gwirfoddoli profiad byw wrth wella lles, cefnogi adferiad a chryfhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rydym yn gobeithio y bydd yr astudiaethau achos hyn yn ysbrydoli syniadau a sgyrsiau am y rôl y gall gwirfoddoli ei chwarae mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Os hoffech ddysgu mwy am Helplu Cymru, trafod menter wirfoddoli, neu archwilio cyfleoedd o fewn eich mudiad eich hun, cysylltwch â Lynne Connolly ar lconnolly@wcva.cymru.



[Adroddiad gwerthuso]



[Astudiaethau achos]